**RHIF YR EITEM AR Y RHAGLEN**
**[Ddim i'w gyhoeddi oherwydd Paragraff(au) …… Rhestr 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972]**

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | **Cyfarfod y Bwrdd Comisiynwyr** |
| **Dyddiad** | **5 Medi 2011** |
| **Pwnc** | **Panel Annibynol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Drafft ar gyfer 2012 - 13** |
| **Deilydd(ion) Portffolio** | **Byron Davies** |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | **David Elis-Williams** |
| **Swyddog Cyswllt** | **David  Elis-Williams** |
| **Natur a rheswm am adrodd**<br><br>**Angen ymateb i ymgynghoriad**<br>**Angen ystyried yr effaith posib ar strwythurau democrataidd lleol.** | |

## A - Cyflwyniad / Cefndir / Materion sydd angen sylw

1. Bydd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (PCA) bwerau newydd dan fesur Llywodraeth Leol Cymru (2011) i benodi'r lefel o daliadau a wneir i Aelodau, yn hytrach nag argymell uchafsymiau ar gyfer lwfansau. Ym mis Gorffennaf 2011 maent wedi cyhoeddi draft o'r adroddiad y bwriedir iddo fod yn berthnasol yn 2012-13, fel sail ar gyfer ymgynghori.

2. Mae'r adroddiad draft llawn ar gael ar wefan y Panel ac mae copi caled wedi ei adael yn lolfa'r aelodau. Mae'r atodiad yn atgynhyrchu briff a ddarparwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sy'n crynhoi'r prif bwyntiau.

3. Y prif bwynt yw bydd y cyflogau newydd yn orfodol yn hytrach na bod gan y Cyngor y disgresiwn ynghylch faint i dalu hyd at uchafswm.

4. Mae'r Panel wedi gofyn am ymatebion erbyn 5 Hydref. Yn ogystal bydd CLlLC yn ystyried y mater yn eu Pwyllgor Cydgysylltu ar 30 Medi a byddai'n briodol cyflwyno sylwadau'r awdurdod hon i'r drafodaeth honno.

**5.** Er mai adroddiad i bwrpas ymgynghori ydyw yn unig ar hyn o bryd, efallai y bydd angen cadw ei gynigion mewn cof mewn wrth ddatblygu strwythurau democrataidd yn Ynys Môn. Pe bai cynigion y panel yn cael eu gweithredu fel y meant ar hyn o bryd byddai angen gwneud newidiadau i gyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn.

## B - Ystyriaethau

**1. Ymyrraeth**

**1.1** Mae'r Cyngor hwn bellach yn "achos arbennig " oherwydd yr ymyrraeth gyfredol ac mae'r lwfansau wedi eu cyfyngu am y rheswm hwnnw. Byddai cynigion y Panel yn golygu y byddai'r cyfyngiadau cyfredol yn parhau hyd nes y bydda'r ymyrraeth yn newid neu yn dod i ben.

**1.2** Gan gymryd y derbynnir hyn, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar beth fyddai'r sefyllfa yn Ynys Môn yn 2012-13 ar ddiwedd yr ymyrraeth ac ar ôl dychwelyd i strwythur gwleidyddol 'arferol.'

**2. Nifer yr Uwch Swyddi**

**2.1** Dan derminoleg y mesur bydd "Uwch Gyflogau" yn disodli Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig a hefyd yn cynnwys y lwfansau a delir i Benaethiaid Dinesig (Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor).

**2.2** Newid arwyddocaol, ac un a all fod yn gynhennus, yw cyfyngiad ar nifer yr uwch gyflogau y gellir eu talu. Ar hyn o bryd, yr uchafswm yw 50% o'r aelodaeth, felly 20 yn achos Ynys Môn, ac mae'r lwfansau ar gyfer Penaethiaid Dinesig ar ben hynny. Dan y cynigion ar gyfer 2012-13, cyfyngir y nifer i Ynys Môn i 15, gan gynnwys y Penaethiaid Dinesig. Buasai'r cyfyngiad yn gymwys heb newid cyfanrif aelodaeth y Cyngor Sir.

**2.3** Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 hefyd yn dweud bod rhaid sefydlu pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, ac mae'r Panel yn rhagdybio y bydd hwn hefyd yn denu lwfans ar gyfer ei Gadeirydd.

**2.4** Allan o 15 o lwfansau, mae hyn yn golygu bydd 6 ohonynt yn cael eu defnyddio ar gyfer y swyddi isod :-

Cadeirydd y Cyngor
Is-Gadeirydd y Cyngor
Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion
Cadeirydd Pwyllgor Archwilio
Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Arweinydd y Brif Wrthblaid

(Mae hyn yn rhagdybio bydd y Cyngor yn parhau i benderfynu, fel ar hyn o bryd, na ddylai Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu fod â hawl i gael lwfans).

**2.5** Nid yw hyn ond yn gadael 9 o uwch gyflogau ar gyfer y Pwyllgor Gwaith a Chadeiryddion Pwyllgorau Sgriwtini. Gall niferoedd y rhain amrywio, ond mae Cyfansoddiad y Cyngor yn diffinio 5 pwyllgor sgriwtini ac yn caniatáu i'r Arweinydd benodi hyd at 10 o aelodau i wasanaethu ar y Pwyllgor Gwaith (gan gynnwys yr Arweinydd a Dirprwy Arweinydd). Mae hyn yn golygu bod angen gostwng 15 o swyddi i 9, a newid y Cyfansoddiad i adlewyrchu hynny.

**2.6** Ar yr un pryd, mae'n gwbl glir yn yr adroddiad gan y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol fod bod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith yn ymrwymiad amser llawn.

**2.7** Mae'n debygol y bydd hwn yn gyfyngiad amhoblogaidd ar allu awdurdodau lleol i benderfynu eu strwythurau democrataidd mewnol eu hunain, ac mae'n debygol iawn y bydd awdurdodau lleol yn gwrthwynebu. Efallai y bydd y Bwrdd Comisiynwr yn dymuno ymateb i'r perwyl hwnnw.

**2.8** Serch hynny, mae'n debygol y bydd y cyfyngiad hwn, neu rywbeth tebyg, yn cael ei gyflwyno o 2012. Bydd raid i drefniadau cynllunio ymlaen y Cyngor ar gyfer eu strwythurau democrataidd o 2012 gymryd hyn i ystyriaeth.

## 3. <u>Costau</u>

**3.1** Er mwyn amcangyfrif beth fydd y costau tebygol, mae angen gwneud rhai rhagdybiaethau ynghylch sut y bydd y Cyngor yn gostwng nifer yr uwch gyflogau. Yn y tabl, rhagdybir i bwrpas yr enghraifft, y bydd y Cyngor yn mabwysiadu Pwyllgor Gwaith o 6 o Aelodau gan gynnwys (Arweinydd ac Is-Arweinydd) a thri Pwyllgor Sgriwtini.

**3.2** Gwneir cymhariaeth yn erbyn beth fyddai'r cynllun lwfansau wedi bod ar gyfer 2011-12 pe na bai'r newidiadau wedi digwydd yn sgil yr ymyrraeth. Mae hyn yn adlewyrchu'r toriad o 10% yn y lwfansau ym Mawrth 2011.

**3.3** Mae'r gymhariaeth yn y tabl yn dangos y lwfansau yn codi i'r ffigyrau cyflog newydd a nodir. Beth bynnag, oherwydd y toriad yn nifer yr uwch gyflogau nid yw cyfanswm cost tâl i gynghorwyr, o gymharu â'r sylfaen, ond yn cynyddu £15k mewn blwyddyn lawn. Wrth gwrs, pe bai'r nifer o uwch gyflogau yn codi heb ostyngiad cyfatebol yn eu gwerth, byddai hynny'n cynyddu'r cyfanswm cost i'r awdurdod.

## 4. Aelodau Cyfetholedig

**4.1** Hyd yma nid ydyw'r Cyngor wedi mabwysiadu cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer aelodau cyfetholedig. Mae'r cynigion ar gyfer 2012-13 bellach yn gwneud hyn yn orfodol ar gyfer aelodau cyfetholedig a chanddynt bleidlais - h.y. y rheini sydd ar y pwyllgor safonau a'r rheini sydd wedi eu cyfethol ar y pwyllgor sgriwtini addysg a'r pwyllgor sgriwtini trosedd ac anrhefn.

**4.2** Bydd y rhain yn cael tâl yn seiliedig ar fynychu am ddiwrnod llawn neu hanner diwrnod. Gan gymryd i ystyriaeth y cylchoedd arferol ar gyfer cyfarfodydd a lefelau mynychu, a chan ragdybio y byddai pob un yn gyfradd hanner diwrnod, byddai hynny'n golygu costau o gwmpas £4k y flwyddyn, yn ogystal â'r costau yn y tabl sy ynghlwm.

**4.3** Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 hefyd yn nodi bod rhaid cael aelodau cyfetholedig gyda phleidlais ar bwyllgorau Archwilio, a gellir rhoi cydnabyddiaeth ariannol iddynt. Fodd bynnag nid yw'r adroddiad gan y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol yn sôn o gwbl am yr aelodau cyfetholedig hyn felly nid yn glir, beth, os o gwbl, y dylid ei dalu.

**4.4** Mae'r Mesur Llywodraeth Leol yn caniatáu i gynghorydd neu aelod cyfetholedig gadeirio Pwyllgor Archwilio. Mae hyn yn cyflwyno cymhlethdod ychwanegol oherwydd nad yw'n glir a ddylid talu i Gadeirydd sy'n aelod lleyg ar yr un raddfa â Chadeirydd sy'n Gynghorydd. Os yw'r Cadeirydd yn aelod lleyg nid yw'n glir chwaith a yw hynny'n "cymryd" un o'r uwch gyflogau o'r cyfanswm a ganiateir.

**4.5** Dylai'r ymateb i'r Panel dynnu sylw at yr amwysedd hwn.

**4.6** Barn y Pwyllgor Archwilio, pan yr ymgynghorwyd ag ef ar y pwynt penodol hwn, oedd na ddylid rhoi cydnabyddiaeth ariannol i aelodau cyfetholedig. Dylid cyflwyno'r farn honno i'r Panel.

## 5. Teithio a Chynhaliaeth

**5.1** Mae’r cynigion ar gyfer 2012-13 yn ychwanegu at yr amgylchiadau lle gelir hawlio lwfansau teithio i gynnwys teithiau ar gyfer gwneud gwaith yn y wardiau etholiadol neu waith ar faterion etholaeth. Mae hyn fel ymateb i sylwadau a wnaed gan Gynghorwyr gyda wardiau gwledig mawr yn dweud nad oeddent yn cael cydnabyddiaeth ariannol dan y diffiniad blaenorol o “ddyletswyddau cydnabyddedig”. Gall yr Awdurdod gyfyngu’r amgylchiadau lle telir y lwfans hwn. Mae’n anodd amcangyfrif i ba raddau y byddid yn gwneud defnydd o’r lwfans hwn yn Ynys Môn, er ei fod yn wir dweud nad yw llawer o’r Aelodau yn hawlio costau teithio o gwbl ar hyn o bryd am deithiau o fewn y sir.

**5.2** Newid arall sydd wedi ei gyflwyno yw gwahardd hawlio costau cynhaliaeth ar gyfer dyletswyddau a gyflawnir o fewn ffiniau’r awdurdod. Mae hyn eisoes yn nodwedd o’r cynllun yn Ynys Môn, felly ni ddylai’r newid wneud unrhyw wahaniaeth yma.

## 6. <u>Atebolrwydd ac Adrodd</u>

**6.1** Mae cynigion y Panel, i raddau helaeth, yn atgynhyrchu’r ddeddfwriaeth gyfredol mewn perthynas â chyhoeddi manylion am dâl cynghorwyr. Mae'r rhain hefyd wedi eu dwyn ynghyd mewn “Atodlen o Gyfrifoldebau a Chydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau” gyda gwybodaeth atodol ychwanegol.

**6.2** Mae’n cynwys y disgwyliad y bydd Cynghorau yn mabwysiadu “datganiad o gyfrifoldeb sylfaenol cynghorwyr” a “ disgrifyddion rolau deiliaid cyflog uwch” - h.y. disgrifiadau swydd i gynghorwyr. Disgwylir i gynghorwyr unigol baratoi eu hadroddiadau blynyddol eu hunain i’w cyhoeddi ar y wefan. Ym mhob achos mae’r canllawiau yn dweud fod rhaid i’r awdurdod gyhoeddi a wnaed hynny ai peidio; mae hynny’n golygu nad yw’n gorfodi swydd ddisgrifiadau ac adroddiadau blynyddol.

**6.3** Yn gyffredinol, mae gofynion mwy beichus o ran gweinyddiaeth a chyhoeddusrwydd. Unwaith y bydd adroddiad 2012-13 wedi ei gadarnhau’n derfynol, mae’n debygol y bydd angen diwygio cynllun yr awdurdod hwn yn drwyadl ynghyd a newid rhai arferion gweinyddol.

## 7. <u>Ymateb i’r Ymgynghoriad</u>

**7.1** Mae’r adroddiad hwn yn ymwneud yn bennaf â strwythurau democrataidd ac mae o bwys i’r aelodau etholedig. Gan hynny, gofynnwyd am sylwadau gan Arweinyddion Grwpiau a Chadeirydd y Cyngor (yn cynrychioli aelodau di-gyswllt).

**7.2** Derbyniwyd ymateb ar ran y Grwp Annibynnol Gwreiddiol i'r cyfeiriad canlynol :-

- Gwrthwynebu'r lleihad yng nghyflogau uwch pan fo nifer o alwadau ar nifer o aelodau;
- Gwrthwynebu tynnu'r hawl i benderfynu ar dâl pennaethiaid dinesig;
- Angen adnewyddu democrataidd i ddenu amryw o grwpiau sydd â galwadau eraill ar eu hamser;
- Rhaid cael diogelwch cytundeb i swyddogaethau llawn amser;
- Croesawu costau teithio gan aelodau mewn wardiau gwledig mawr;
- Pryder y bydd y cynigion yn gwanhau gweithio mewn partneriaeth;
- Pryder na fydd y cynigion yn cynorthwyo recriwtio a chadw aelodau ac y byddant yn gwanhau'r Pwyllgor Gwaith;
- Angen i ymateb mewn cydweithrediad a chynghorau eraill a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**7.3** Ymatebodd grwp Plaid Cymru :-

- Y byddai'n well ganddynt gadw pethau fel y maent;
- Bod y syniad o gynghorwyr llawn amser yn tanseilio adnewyddu democrataidd gan y buasai yn atal pobl ag ymrwymiadau eraill rhag sefyll;
- Y dylai cynghorau benderfynu ar lwfansau;
- Y buasai anawsterau i dalu costau teithio o fewn wardiau.

**7.4** Mynegodd y ddau grwp mai ymateb cychwynnol oedd hwn, ac y gall fod aelodau yn dymuno mewnbwn pellach.

**7.5** Efallai y bydd y Bwrdd Comisiynwyr yn dymuno ymgynghori ymhellach gydag aelodau etholedig cyn cwblhau ymateb i'r Panel Cydnabyddiaeth Ariannol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

## 8. <u>Y Goblygiadau i'r Awdurdod</u>

**8.1** Er nad yw'r adroddiad yn derfynol o bell fordd, mae'n nodi cyfeiriad teithio sy'n debygol o gael ei gadarnhau yn y fersiwn derfynol. Ar ôl etholiadau 2012 mae'n debygol y bydd Cynghorwyr yn cael eu trin yn fwy fel pobl broffesiynol - gyda chyflog yn hytrach na lwfans ac y byddant yn atebol trwy ddatganiad o gyfrifoldeb. Bydd llai mewn rolau uwch, ond bydd disgwyl y bydd y mwyaf blaenllaw o'r rhain h.y. Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, yn cyflawni'r rolau hyn ar sail amser llawn.

**8.2** Wrth i'r awdurdod hwn adolygu ei Gyfansoddiad ac adolygu ei strwythur democrataidd, mae'n rhaid iddo wneud darpariaeth ar gyfer y cyfeiriad teithio hwn.

| C - Goblygiadau ac Effeithiau | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyllid / Adran 151** | Awdur yr adroddiad; dim sylw ychwanegol |
| 2 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | Dim sylw |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | Amherthnasol |
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo** | Amherthnasol |
| 5 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| 6 | **Cydraddoldeb** | Un o egwyddorion y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth yw ceisio annog cyfranogiad y sawl sydd wedi eu tan-gynrychioli yn sylweddol fel aelodau awdurdodau lleol. Nid oes fawr o ddewis gan yr awdurdod hwn ynglyn a'u hargymhellion, felly ni fuasai angen asesiad cydraddoldebau ar wahân. |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol** | Un o egwyddorion y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth yw rhoi ystyriaeth i enillion etholwyr Cymru. Gweler hefyd y sylw uchod. |
| 8 | **Cyfathrebu** | Yn y pen draw bydd disgwyliadau newydd o ran cyhoeddi. Amherthnasol ar hyn o bryd. |
| 9 | **Ymgynghori** | Ymgynghorwyd ag arweinyddion grwpiau wrth lunio'r adroddiad, ac hwyrach bydd angen ymgynghoriad mewnol pellach cyn cwblhau'r ymateb i'r ymgynghori. |
| 10 | **Economaidd** | Amherthnasol |
| 11 | **Amgylcheddol** | Amherthnasol |
| 12 | **Trosedd ac Anrhefn** | Amherthnasol |
| 13 | **Cytundeb Canlyniadau** | Amherthnasol |

| CH – Crynodeb |
|---|
| Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r prif faterion ar gyfer Ynys Môn sy'n codi o'r adroddiad ymgynghorol gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol |

| D – Argymhelliad |
|---|
| Ymgynghori ymhellach gydag aelodau etholedig ac ymateb i'r ymgynghori. |

**Enw awdur yr adroddiad – David Elis-Williams**
**Swydd – Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid)**
**Dyddiad – 24 Awst 2011**

| Atodiadau: |
|---|
| Briffio CLLC (Saesneg yn unig)<br>Tabl costau |

| Papurau Cefndirol: |
|---|
| |

**APPENDIX**

## WLGA Briefing

## Independent Remuneration Panel Report – July 2011

## Background

- The IRP has a range of new powers following the Local Government (Wales) Measure 2011
- IRP were concerned about the financial impact across Wales should they set allowances/salaries at the current maximum levels, given many authorities were paying below those levels. The IRP estimated that there would be an additional cost of c£1.87m across Wales if all authorities had to pay at current prescribed levels. There would clearly be a differential impact across authorities depending on current remuneration levels – a number already pay at the recommended maximum level.
- WLGA Leaders discussed the above issue at Coordinating Committee in March and their preferred option, which was communicated to the IRP, was that IRP should continue with its policy of setting salaries across Wales, but postpone this decision and any rises until the wider local government pay restraint had been lifted.
- **The IRP's report is being consulted upon, with a closing date of 3rd October.**
- WLGA will consider a draft response at Coordinating Committee on 30th September, in advance of the close of consultation.

## Summary of Key Proposals:

- 'Allowances' renamed as 'salaries'
- Reduction of Prescribed Basic Salaries by 5% and reduction of prescribed Senior Salaries by 10%. The proposals will have differential impacts across Wales:
    - 10 councils will see reductions (of up to £693) and 12 councils will see basic salaries rise (up to £1,833)
    - 15 councils will see Executive salaries reduced between £3,051 and £332, 7 councils will see increases of between £8,901 and £74.
    - 8 Leaders' salaries will reduce by between £5,085 and £127.
- Reduction in the number of Senior Salaries available to authorities from 'no more than 50% of council' to 17 in larger (Group A) authorities, 16 in Group B authorities and 15 in smaller (Group C) authorities.
- The overall financial impact of the proposals would be a saving of over £1m across Wales
- Family Absence introduced, allowing the temporary suspension of the above cap on senior salaries.
- The remuneration framework is also extended to cover National Park and Fire and Rescue Authorities
- The Senior Salary framework is also extended to cover Civic Heads (and their Deputies) and (post-Measure) Chairs of Democratic Services Committees, which would be included in the above Senior Salary limits.
- The IRP has allowed authorities flexibility in terms of Committee Chairs (Band 3) qualifying for Senior Salaries, as these are not specified in the Report, but can be 'defined by the Council'
- Leaders and Cabinet Members are deemed as full-time roles. The Report states that they should therefore 'consider very carefully whether they are able to effectively

discharge any further public responsibilities they may hold elsewhere'. Leaders and Cabinet Members not able to claim allowances on National Park and Fire Authorities.

- Annual public declaration of payments to members must include remuneration from all public service nominations and appointments.
- 'Approved duties' of travel expenses has been extended to include 'ward duties'.
- Although the Annual Report takes effect from 1st April 2012, the IRP suggests that changes should not be implemented until the date of the AGM in each council.

## Comments:

### Timescale

- The Report's publication at the beginning of August, with a consultation period of only 8 weeks, provides limited opportunity for both informal and formal discussion within authorities.

### Salary Reduction

- The IRP's proposals will be challenging for all authorities:
  - a number will see a reduction in members' remuneration
  - in others, councillors' remuneration will increase which will result in a financial impact on the authority and media/public interest for candidates/members in the run-up to the 2012 elections
- Reducing councillor salary levels in 10 councils (c554 members) will do little to encourage the retention or recruitment of new candidates, this goes against WG's local democracy agenda and the recent Local Government Measure 2012.
- Councillors have had a pay freeze for 2 years already and many will now get a substantial pay cut.
- The proposals fundamentally undermine the IRP's original methodology and principles around the value of councillor role, which was set at 3/5ths of the Welsh median gross earnings.
- The IRP has long observed that Leaders and Cabinet Members are generally full-time roles, however, this report suggests that given such members are remunerated for a full-time role they should not receive additional senior salaries from other bodies. The report and accompanying letter also suggests that given their responsibilities and time constraints, leaders and cabinet members should not undertake roles on other bodies – this is again at odds with current local practice and the WG agenda of collaboration; partnership and collaboration is a fundamental feature of such senior roles.

### Cap on Number of Senior Salaries

- The proposed reduction of number of Senior Salaries payable is arbitrary and no explanation is given around rationale for proposed number of senior salaries other than as part of the efficiency agenda.
- Whilst the IRP seeks to stress 'managing with less' efficiency agenda, it appears to overlook the sensitivities of managing local politics and, crucially, does not appear to reflect the local or statutorily necessary governance arrangements in councils:
  - The number of Senior Salaries has been reduced from a maximum of 50% to 15-17 members depending on the size of the authorities.
  - A number of authorities already work well below the 50% maximum, and a number have reduced the size of cabinets or qualifying committee positions according to prevailing local circumstances. However, this cap will affect a number of authorities and limits local flexibility around managing necessary governance arrangements or responding to new roles and responsibilities.

- Larger authorities are particularly limited by this cap, with the percentage of Senior Salary holders reduced to 23% in Group A authorities. The range across Welsh authorities eligible for Senior Salaries is 23%-45% of council members. This compares to the National Assembly for Wales where 53% of members will receive SRAs in the current term (from 2011-12).
- Some new 'qualifying' senior salaries have been introduced by recent legislation and previously by the IRP's own Annual and Supplementary Reports. The current report itself introduces 3 new qualifying positions.
- Based on qualifying positions from this and previous IRP Annual Reports it is surprising that the IRP would seek to limit Senior Salaries to 15-17 in number, as an authority could reasonably allocate up to c25 senior salaries in 2012-13:
  - 1 x Leader
  - Up to 9 x further Cabinet Members (including Deputy Leader)
  - 1 x Chair of Council/Mayor *(as introduced by IRP Report)*
  - 1 x Vice-Chair of Council/Deputy Mayor *(as introduced by IRP Report)*
  - 1 x Chair of Planning Committee
  - 1 x Chair of Licensing Committee
  - 1 x Chair of Audit Committee
  - 1 x Chair of Democratic Services Committee *(as introduced by IRP Report)*
  - c5 x Chairs of Overview and Scrutiny Committees
  - 1 x Group Leader (Largest Opposition Group)
  - c2-3 x Group Leaders (Other Groups, not less than 10% of all council members)
  - Other roles previously approved by IRP as demanding Senior Salary eg. Chairs of Pension Committees or Appeals Panels
  - There is scope for senior salaries for new joint committees as a result of recent legislation e.g. Joint scrutiny chairs.
  - *Chair of Standards Committee is also payable, however as a co-optee appointment it is not included in the above cap.*
- The proposals therefore mean that if the IRP were to specify a maximum number of Senior Salaries of between 15-17:
  - members carrying out senior roles will have to voluntarily forgo their senior salary entitlement, or
  - councils would reduce the number of specific qualifying positions, which could impact on the recruitment and retention of individuals for key posts of responsibility, or
  - councils will have to significantly reduce the size of cabinets and/or the number of scrutiny committees. This would:
    - increase pressure and responsibility on fewer executive members at a time of unprecedented challenge for local authorities,
    - reduce the number of scrutiny committees at a time when the Welsh Government is promoting scrutiny's role and when they are expected to undertake significant new responsibilities, in particular responding to the collaborative agenda and exercising their duty to scrutinise all public services.

**LWFANSAU ALEODAU - EFFAITH ADRODDIAD DRAFFT PCA AR GYFER 2012-13**

**Lwfansau a fabwysiadwyd Mawrth 2011**
**cyn eu lleihau oherwydd ymyrraeth**

| | Nifer | £ | Cyfan-swm £ | Cost Posib £ |
|---|---|---|---|---|
| Lwfans Sylfaenol | 40 | 11664 | | |
| Lwfansau Dinesig: | | | | |
| Cadeirydd y Cyngor | 1 | 6453 | 18117 | 18117 |
| Is-Gadeirydd y Cyngor | 1 | 4608 | 16272 | 16272 |
| Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig: | | | | |
| Arweinydd | 1 | 24912 | 36576 | 36576 |
| Dirprwy Arweinydd | 1 | 13701 | 25365 | 25365 |
| Aelodau eraill Pwyllgor Gwaith - hyd at | 8 | 12454 | 24118 | 192944 |
| Cadeiryddion Sgrwtini | 5 | 7473 | 19137 | 95685 |
| Cadeirydd Cynllunio a Gorchmynion | 1 | 7473 | 19137 | 19137 |
| Cadeirydd Pwyllgor Archwilio | 1 | 7473 | 19137 | 19137 |
| Cadeirydd Pwyllgor Trwyddedu | | dim | | |
| Prif Arweinydd Gwrthblaid | 1 | 7473 | 19137 | 19137 |
| Cyfanswm LCA | 18 | | | |
| Lwfansau dinesig | 2 | | | |
| Lwfansau Sylfaenol yn unig | 20 | | 11664 | 233280 |
| Cyfanswm cost | | | | 675650 |
| dadansoddiad - | | | | |
| Lwfansau Sylfaenol | | | | 466560 |
| Lwfansau Dinesig | | | | 11061 |
| Lwfansau Cyfrifoldeb Gweithredol | | | | 138245 |
| Lwfansau Cyfrifoldeb Anweithredol | | | | 59784 |
| | | | | 675650 |

**Cyfraddau PCA ar gyfer 2012-13**
**gan ragdybio PG yn lleihau i 6 a Sgrwtini i 3**

| | Nifer | Cyflog £ | Cost Posib £ |
|---|---|---|---|
| Nifer Cynghorwyr | 40 | | |
| Uwch-gyflogau: | | | |
| Cadeirydd y Cyngor | 1 | 19035 | 19035 |
| Is-Gadeirydd y Cyngor | 1 | 14805 | 14805 |
| Arweinydd | 1 | 42300 | 42300 |
| Dirprwy Arweinydd | 1 | 29820 | 29820 |
| Aelodau eraill Pwyllgor Gwaith - hyd at | 4 | 25660 | 102640 |
| Cadeiryddion Sgrwtini | 3 | 21910 | 65730 |
| Cadeirydd Cynllunio a Gorchmynion | 1 | 21910 | 21910 |
| Cadeirydd Pwyllgor Archwilio | 1 | 21910 | 21910 |
| Cadeirydd Pwyllgor Trwyddedu | | dim | |
| Prif Arweinydd Gwrthblaid | 1 | 21910 | 21910 |
| Cadeirydd Gwasanaethau Democrataidd | 1 | 21910 | 21910 |
| Cyfanswm uwch-gyflogau | 15 | | |
| Cyflog sylfaenol | 25 | 13175 | 329375 |
| Cyfanswm cost | | | 691345 |
| dadansoddiad - | | | |
| Elfen sylfaenol ym mhob cyflog | | | 527000 |
| Elfen uwch am Gyfrifoldebau Dinesig | | | 7490 |
| Elfen uwch am Gyfrifoldebau Gweithredol | | | 95710 |
| Elfen uwch am Gyfrifoldebau Anweithredol | | | 61145 |
| | | | 691345 |